



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng Chris Jones

Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER,
MAWRTH Y 15^{fed} 2023**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Chwefror yr 22^{ain} 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer prosiect y Pasg.
7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer lansiad Prosiect Glan y Môr Elias ar ddydd Sul, Mawrth y 19^{eg} 2023
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cais grant Ysgol Pant y Rhedyn s137
9. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Mawrth 2023
10. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Mawrth 2023

Ymuno â'r Cyfarfod Zoom

<https://us02web.zoom.us/j/83057425242?pwd=dVhOeFI2NHFmNzdZUVZUWjJXSHJJUT09>

Rhif Adnabod y Cyfarfod: 830 5742 5242
Cyfrinair: 057652

Taliadau i'w cyflwyno
1. Kirsty Merrell Daily Trwydded TENS Mawrth £21.00
2. CBSC Sgipiau Cymunedol £240.00
3. Cyflogau'r Staff a'r Cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Mawrth 2023 £4700
4. Menter Iaith cyfieithiadau (Hyd, Tach a Rhag a'r poster adar) £658.91
5. Llogi Neuadd Gymunedol y Dref ar gyfer marchnad Mawrth £120.00
6. Viking papur a phapur tŷ bach £165.48
Cyllid Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (EnRAW) Gwella Glan y Môr Elias gyda Chyllid Cyfatebol gan y Cyngor Tref
1. Jared Pegler Designs (Posteri) £230.00
2. MK Enterprises (Meinciau ac arwyddbyst) £5,398.56
3. Emyr Price EPC (Gosodiadau) £1890.00
4. Autotop (Arwyddion) £320.00
5. Graham Cawthray (placiau meinciau) £270.00 (bydd teuluoedd yn ad-dalu am y rhain)
Taliadau ôl-ddyddiedig
1. Lwfans Gofalwyr Cynghorydd £76.00

11. Trafod materion cynllunio

0/50526 Tu Hwnt I'r Afon 9 Y Clos Llanfairfechan LL33 0AG Lleihau corun 1 x coeden geirios

12. Derbyn gohebiaeth

13. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1 Clwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan

2 Neuadd Gymunedol Llanfairfechan

14. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng Chris Jones

Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER,
MAWRTH Y 15^{fed} 2023**

Presennol: Cadeirydd: Maer Chris Jones; Cyng Sir Penny Andow (ar Zoom); Cyng Leena Farhat; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes (ar Zoom); Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Elgan Owen (ar Zoom); Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg; Clerc y Dref Jayne Neal

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)**

Dirprwy Faer Laura Fielding; Cyng Gareth Jones

Penderfynwyd derbyn a nodi**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)**

Eitem 10 Cyng Nia Jones – ddim yn ragfarnol

Penderfynwyd derbyn a nodi**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.**

Doedd dim Preswylwyr yn bresennol

Penderfynwyd derbyn a nodi**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Ionawr yr 11eg 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)**

4.2 Sylwadau cynllunio ynghylch Castle Green – yn dilyn datganiad ffurfiol y Cyngor Tref ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach a doedd dim sylwadau negyddol ar Facebook. Gan hynny, mae'n debyg fod yr ymateb wedi'i dderbyn yn dda. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan Gynghorau Tref a phreswylwyr eraill ynghylch ein bod ni wedi llwyddo i gynnig ymateb mor gyflawn. Bu i'r Clerc estyn diolch i'r Cyngor Tref am eu holl waith yn casglu gwybodaeth.

14.2 Arwydd Tro Pedol ar y Promenâd. Mae gan y Clerc lun ond fe fydd hi'n anfon e-bost at CBS Conwy. Nid yw'n ymddangos ei fod yn arwydd Conwy felly mae angen ymchwilio hyn.

Doedd dim Rhestr Weithredu ar gael.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Roberts Yn UnfrydolPenderfynwyd derbyn a nodi**6. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer prosiect y Pasg**

Mae'r Cyngor Tref wedi cynllunio a chymeradwyo gweithgareddau'r Pasg eisoes ond dydyn nhw heb lwyddo i gyflawni'r gwaith ymhen y dyddiad priodol yn sgil salwch staff. Bydd yr wyau Pasg ar gyfer y ffenestri yn dempledi papur erbyn hyn. Mae'r rhain wedi'u cludo i Ysgol Babanod, ac fe gân nhw eu casglu ar ddydd Mercher, Mawrth yr 22^{ain} a'u gosod yn y ffenestri cyn y farchnad ar ddydd Sul, Mawrth y 26^{ain}. Yna fe allai'r plant ddod i'r neuadd i fwrw golwg ar y ffenest



arddangos a hawlio'u ŵy Pasg am ddim. Bydd stondin ar y diwrnod marchnad hefyd lle gallai'r plant liwio wyau Pasg a hawlio ŵy Pasg am ddim ar y diwrnod. Mae pwyllgor Digwyddiadau Cymunedol Llanfairfechan yn cynnal picnic Pasg yng Ngerddi Victoria.

Bydd y Clerc yn mynychu gyda stondin ar y diwrnod gan gynnig tatŵs Pasg dros dro.

Staff i fwrw iddi gyda'r cynlluniau – mae croeso i'r Cynghorwyr Tref fynychu'r digwyddiadau.

Penderfynwyd derbyn a nodi

7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer lansio Prosiect Glan y Môr ar ddydd Sul, Mawrth y 19^{eg} 2023

Mae cynlluniau mewn lle ac mae'r meinciau a'r bwrdd panorama wedi'u gosod. Mae'r placiau coffa'n barod i'w gosod ac fe fyddan nhw'n barod ar gyfer y lansiad ddydd Sul. Estynnwyd gwahoddiad i bawb sydd ynghlwm i ymweld â'r safle am 10yb ar ddydd Sul, Mawrth y 19^{eg} i ddathlu. Bydd y Maer Chris Jones yn bresennol i gyflwyno araith fer ynghylch Prosiect Gwella Glan y Môr a diolch i bawb fu ynghlwm. Yn dilyn hyn, bydd pawb sy'n bresennol yn derbyn gwahoddiad i gerdded o amgylch y safle a bwrw golwg ar yr eitemau newydd. Cytunwyd y dylen ni ymgynnull ger y bwrdd panorama newydd ar hyd Y Cob rhwng y tai a'r giât i Lan y Môr Elias. Mae croeso i'r holl Cynghorwyr Tref fynychu. Fel rhan o'r prosiect byddwn yn datblygu'r pwyntiau hanes ar gyfer Y Cob a Glan y Môr Elias – mae'n faes diddordeb sylweddol. Nid yw'n ddrud i osod codau QR felly byddwn yn ymchwilio hyn ac yn adrodd yn ôl. Derbyniwyd cais am fainc newydd ger y grisiau wrth ochr Eglwys y Santes Fair a soniwyd bod y fainc ger pen pellaf y llwybr mewn cyflwr gwael. Cytunwyd y dylai'r clerc ymchwilio i hyn ac adrodd yn ôl ynghylch y mater.

Penderfynwyd derbyn a nodi

8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cais grant Ysgol Pant y Rhedyn s137

Mae hwn yn gais i'r gronfa s137 am gyllid i gofrestru'r holl ddisgyblion ar gyfer sesiynau'r Urdd 2023/24. Soniwyd bod llai o deuluoedd yn cofrestru erbyn hyn felly mae'r plant yn colli cyfle. Nododd adroddiadau Estyn yr ysgol hefyd y dylid annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ac mae'r Urdd yn ffordd dda o gyflawni hyn. Wedi iddyn nhw ystyried y cynnig yn drwyadl, cynigwyd y dylai'r Cyngor Tref gynnig y swm llawn o gyllid a'n bod ni'n derbyn adroddiad gyda'r ffigyrau o ran faint o blant sy'n mynychu ac yn manteisio ar adnoddau'r Urdd. Mae'r mater hwn wedi'i wirio gydag Un Llais Cymru ac mae hawl gan y Cyngor Tref ariannu gweithgareddau y tu hwnt i'r ysgol a gweithgareddau nad ydyn nhw'n rai craidd gyda'r grant s137.

Cynigwyd gan y Cyng C Roberts Eiliwyd gan y Cyng N Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

9. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Mawrth 2023

Cynigwyd gan y Cyng C Roberts Eiliwyd gan y Cyng L Farhat Yn Unfrydol

Penderfynwyd derbyn a nodi

10. Derbyn a chymeradwyo taliadau cyfredol ar gyfer Ionawr 2023 – wedi'u diwygio – talwyd Menter Iaith y mis diwethaf.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng L Farhat Yn Unfrydol

Penderfynwyd derbyn a nodi

11. Trafod materion cynllunio – dilyn cyngor y swyddog coed.

Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Derbyn gohebiaeth

1. Derbyniwyd datganiad archwilio diamedd wedi inni gysylltu gyda swyddog cyswllt o Archwilio Cymru yn ei gylch. Mae pwysau staffio sylweddol yn Archwilio Cymru ac mae problem gydnabyddedig gyda dychwelyd holl archwiliadau 2021/2022 Cynghorau Tref a Chymuned. Rydym yn lwcus o fod wedi derbyn ein harchwiliad gan fod nifer fawr o gynghorau'n dal yn aros am eu canlyniadau. Soniwyd bod hyn yn peri cryn straen i glercod ac yn achosi problem pan fo'n bryd cynnal yr archwiliad nesaf gan nad ydy'r ffigyrau gweddill terfynol wedi'u cadarnhau.

Auditor General for Wales' Audit Certificate and report

I report in respect of my audit of the accounts under section 13 of the Act, whether any matters that come to my attention give cause for concern that relevant legislation and regulatory requirements have not been met. My audit has been conducted in accordance with guidance issued by the Auditor General for Wales.

I certify that I have completed the audit of the Annual Return for the year ended 31 March 2022 of:

Llanfairfechan Town Council

Auditor General's report

Audit opinion – Unqualified

On the basis of my review, in my opinion no matters have come to my attention giving cause for concern that in any material respect, the information reported in this Annual Return:

- has not been prepared in accordance with proper practices;
- that relevant legislation and regulatory requirements have not been met;
- is not consistent with the Council's governance arrangements; and
- that the Council does not have proper arrangements in place to secure economy, efficiency and effectiveness in its use of resources.

Other matters arising and recommendations

There are no further matters that I wish to draw to the Council's attention



Deryck Evans, Audit Manager, Audit Wales
For and on behalf of the Auditor General for Wales

Date: 08/03/2023

Yn ôl y gofyn, mae'r Clerc wedi arddangos yr wybodaeth hon yn ffenest y neuadd a bydd yn ei huwch lwytho i'r wefan yn y man.

2. Llythyr gan y Cyngorydd Pat Griffiths – Cadarnhawyd bod y Cyngorydd Pat Griffiths, yn anffodus, wedi cyflwyno'i hymddiswyddiad yn sgil straen ychwanegol yn ei gweithle. Gofynnwyd i'r Clerc fynd rhagddi gyda'r broses o ethol Cyngorydd Tref newydd ar gyfer Ward Lafan ac i anfon llythyr o ddiolch a dymuniadau gorau at Pat.

3. Derbyniwyd ymateb e-bost gan CBS Conwy yn cytuno gyda datganiad y Cyngor Tref ynghylch Maes Parcio'r Promenâd:

Mae achos busnes cyfalaf wedi'i gyflwyno ar gyfer adfer Maes Parcio'r Promenâd ac rydym yn aros am gymeradwyaeth ar gyfer y cyllid. Bydd hwn yn gynllun 'gwario i arbed' sy'n golygu y bydd angen gosod peiriant Talu ac Arddangos yn y maes parcio er mwyn adennill y gost adnewyddu. Mae manau parcio dynodedig ynghlwm â'r dyluniad newydd, ynghyd â manau parcio ar gyfer deiliaid bathodynau glas, manau gwefru cerbydau trydan a system parcio i breswylwyr er mwyn mynd i'r afael â phobl sy'n parcio mewn manau amhriodol. Bydd system draenio mwy effeithlon a fyddai, yn y dyfodol, yn gwarchod arwyneb y maes parcio i raddau. Fodd bynnag, dylid nodi na fyddai hyn yn golygu y bydd y maes parcio wedi'i amddiffyn yn gyfan gwbl gan ei fod mor agos i'r traeth.

Yn y cyfamser, mae CBS Conwy yn ymwybodol o gyflwr gwael y maes parcio. Maen nhw wrthi'n ceisio adfer y tyllau mwy yn y ffordd dros dro ac maen nhw'n aros am gadarnhad contractwr lleol o bryd fydd yntau ar gael.

Byddwn yn cymryd camau i rybuddio gyrwyr o gyflwr yr arwyneb cyn mynd ati i gyflawni'r gwaith dros dro.

Mae'r gweithwyr wrthi'n cyflawni'r gwaith dros dro ond mae pryderon gwirioneddol nad ydy wedi gwneud unrhyw wahaniaeth.

Fodd bynnag, soniodd yr e-bost na fyddai ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y ffioedd talu ac arddangos. Yn anffodus, ni fydd y ffioedd talu ac arddangos yn agored i ymgynghoriad cyhoeddus, gan fod yr holl feysydd parcio Talu ac Arddangos wedi ymrwymo i brisiau safonol sydd wedi'u cytuno arnyn nhw'n flynyddol gan y cabinet. Y band tariff arfaethedig ar gyfer y maes parcio fyddai band Tariff A, sef y band tariff isaf y gallwn ni ei gynnig. Dyma gostau'r band tariff A arfaethedig ar gyfer 2023/24:

- 70c am 1 awr
- £1.30 am 2 awr
- £3.00 am 4 awr
- £4.20 am 10 awr

Nodwyd bod hyn yn gwrth-ddweud yr hyn a ddywedwyd eisoes mewn cyfarfod Cyngor Tref ac mae angen egluro hyn.

Fel ymateb i hyn, atgoffwyd yr aelodau y cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch talu ac arddangos yn 2014. Roedd 20 pleidlais oedd rhwng cyflwyno Talu ac Arddangos ai pheidio. Mae pryderon y byddai

ymgyngoriad cyhoeddus yn gohirio'r gwaith ar y maes parcio ac mae'n bwysig sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau cyn gynted â phosibl. Mae problemau ynghylch nawdd – os ydy Cyngor Tref Llanfairfechan yn cynnig £25,000 y flwyddyn neu'n noddi'r maes parcio yna fe fyddai'r talu ac arddangos am ddim i'r preswylwyr. Byddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar y gyfradd archebiant – gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio'r cynnydd gofynnol ac adrodd yn ôl gerbron y Cyngor. Bu i adborth blaenorol gan breswylwyr awgrymu nad ydy'r bobl ym mhen uchaf y pentref yn fodlon talu mwy yn eu trethi ar gyfer y maes parcio ac fe gafodd ei gydnabod bod pobl yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd. Byddai modd i'r Cyngor Tref wneud mwy o arian drwy gynhyrchu refeniw ar gyfer y dref yn uniongyrchol? Roedd yr ymgynghoriad diwethaf ynghylch cyflwyno system talu ac arddangos ai pheidio, ond mae Conwy wedi egluro nad ydy hyn yn opsiwn mwyach. Bydd gofyn i unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol ymdrin ag a ddylai'r Cyngor Tref ddefnyddio'u harchebiant i noddi'r maes parcio er mwyn darparu trwyddedau i'r preswylwyr fel nad oes rhaid iddyn nhw dalu'r tariff. Mae'r sefyllfa ariannol yn gwbl wahanol erbyn hyn gan fod y Cyngor Tref wedi derbyn ceisiadau ariannol gan Gyngor Conwy i gynnal y pwll padlo, y tai bach, meysydd parcio a'r gwasanaeth llyfrgell yn y dyfodol hefyd. Mae'n rhaid inni ystyried ein blaenoriaethau a beth rydym ni'n meddwl y dylai'r preswylwyr dalu amdano. Mae'n amhosibl i'r Cyngor Tref ariannu'r holl wasanaethau hyn. Soniwyd fod gwybodaeth yn hollbwysig, os ydy'r preswylwyr yn derbyn y wybodaeth ynghylch costau yna byddan nhw'n meddu ar y dystiolaeth i ddeall y goblygiadau ariannol. Dylid dwyn i ystyriaeth opteg rhoi cymhorthdal i ddefnyddwyr ceir. Bydd preswylwyr ar y prom yn rhan o'r amserlen parcio felly ni fyddan nhw'n codi ar gyfer parcio y tu allan i'w tai ond bydd modd iddyn nhw ddefnyddio'r mannau i breswylwyr. Awgrymwyd nad ydy'r ffigwr o £25,000 yn addas fel rhan o archebiant Cyngor Tref – mae'n ganran sylweddol o gyfanswm y gyllideb gyfredol 2022/23 (£112,260). Mae'n bosibl y gallai busnesau ar y promenâd brynu mannau parcio i gwsmeriaid gan fod hyn yn digwydd mewn ardaloedd eraill. Bydd angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a sesiwn wybodaeth ac fe awgrymwyd y dylai Swyddogion Conwy fod yn bresennol yn y sesiwn. Gallan nhw hefyd ddod draw i ddangos y syniadau dylunio ar gyfer y maes parcio. Clerc i ofyn sut caiff y £25,000 ei gyfrifo ac adrodd yn ôl.

4. Pwll Padlo – Clerc i fynd i gyfarfod ar ddydd Mawrth i ganfod canlyniadau'r gwiriadau llithro ond dydy'r dangosyddion ddim yn dda.
5. Pryderon preswilydd ynghylch tyllau yn y ffordd ar hyd Nant y Felin sydd, mae'n debyg, mor ddrwg fel bod ceir yn teithio'n igam-ogam i'w osgo. Clerc wedi ymateb ac wedi gofyn i'r cynghorwyr dynnu lluniau. Pryder pellach ynghylch graeanu – Clerc i rannu gwybodaeth nad ydy Nant y Felin ar y llwybr blaenoriaeth ac mae biniau graean ar gael i'r preswylwyr eu defnyddio pan fo angen. Roedd sgwrs bellach ynghylch biniau graean, ac fe gytunwyd y dylid cynnig y bin graean ychwanegol tua chefn y neuadd i Ysgol Babanod. Penderfynwyd derbyn a nodi

13. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1. Clwb Pêl-droed Llanfairfechan

Fe anfonwyd e-bost at Mannau Agored CBS Conwy yn dilyn y cyfarfod:

- Arwynebu'r cae chwaraeon aml-ddefnydd. Hoffem lunio cais allanol i arwynebu ac ail-agor yr ardal. Y syniad ydy cadw un cwrt fel cwrt tenis sefydlog ac arwynebu ac ail-agor y llall a'i ddefnyddio fel Cae Chwaraeon Aml-ddefnydd, gan godi tâl bach o bosibl hefyd er mwyn cynnal a chadw'r ardal. At hyn, hoffem gynnal gweithgareddau cymunedol sy'n ymwneud â pêl-droed fel rhan o'r prosiect gan ddefnyddio'r ardal rhwng cae'r clwb pêl-droed a'r Cae Chwaraeon Aml-ddefnydd. Mae llawer o deuluoedd yn defnyddio'r ardal hon eisoes ar gyfer sesiynau pêl-droed anffurfiol felly fe hoffem osod pyst gôl sefydlog yn y man hwn yn ogystal â ffens uchel i warchod tir y clwb bowllo.
- Rydym yn dwyn i ystyriaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Cam 2 fel cronfa ariannu posibl ar gyfer y gwaith refeniw a byddwn hefyd yn cyflwyno ceisiadau i Chwaraeon Cymru neu gronfeydd ariannu posibl eraill ar gyfer y gwaith cyfalaf.
- Coed o amgylch ymyl y cae pêl-droed. Mae'r Clwb wedi derbyn adroddiad arolwg coed yn ddiweddar sy'n amlygu rhai coed heintus a'r risgiau posibl yn sgil y coed yn yr ardal. Maen nhw wedi bod mewn cysylltiad gyda'r swyddog coed Conwy, ac mae'n debyg ei fod o wedi gweld yr adroddiad. Oes modd ichi gadarnhau a fyddai Conwy yn mynd i'r afael â'r broblem hon ai pheidio gan ei fod ar hyd ymyl allanol yr ardal agored? Rydw i'n siŵr y byddai Dewi o'r clwb pêl-droed yn meddu ar fwy o wybodaeth ac rydw i wedi'i ychwanegu at yr e-bost hwn.

Derbyniwyd ymateb dros e-bost yn gyflym, ac rydym yn mynd i'r afael â'r materion. Bu i'r Cynghorydd Andrew Hinchliff unwaith eto bod y coed ar dir Conwy oherwydd fe gafodd y llwybr ceffylau wedi'i ddatblygu gan y cyngor dinesig yn ystod ei gyfnod fel Maer Llanfairfechan. Gan hynny, fe drosglwyddwyd yr ardal hwn yn ogystal â Mannau Agored i feddiant CBS Conwy ym 1972. Trafodwyd materion pellach ynghylch tir yn Llanfairfechan a

perchnogaeth a hawliau Conwy. Clerc i dderbyn e-bost gan y Cynghorydd yn egluro'r pwyntiau hyn i'w roi ar gof a chadw.

2. Neuadd Gymunedol Llanfairfechan

- Bu i aelod cyfetholedig y pwyllgor, Sara Green a'r pwyllgor gytuno y byddai Sara yn ceisio am drwydded safle ar gyfer y neuadd. Mae hyn yn newyddion da gan fod Sara yn meddu ar drwydded bersonol eisoes.
- Ail-glustogi cadeiriau – Er eu bod yn debygol o fod yn addas i'r diben, mae angen tystysgrifau tân ar y cadeiriau gwyrdd felly rydym yn ystyried ail-glustogi'r cadeiriau am 4400 ar gyfer 100 o gadeiriau. Mae hyn yn ddull sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd gan fod y fframiau mewn cyflwr digon da i'w cadw. Mae'r pwyllgor wedi cyflwyno cais i gronfa Dŵr Anafon i weld os byddan nhw'n helpu gyda'r gost.
- Gwybodaeth am y ceisiadau grant a'r dyfodol – mae gennym ni nifer o ffynonellau grant posibl i ddatblygu cynaliadwydd yn y dyfodol a diweddarau'r systemau tanwydd. Mae'r pwyllgor wrthi'n cydweithio gyda CBS Conwy i ymchwilio hyn. Mae'n rhaid ceisio am grant cyfleusterau mewn partneriaeth â CBS Conwy fel perchnogion. Nodwyd bod nifer o dechnolegau newydd y gellir eu defnyddio i gynhyrchu gwres.

3. Llyfrgell Gymunedol Llanfairfechan – mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n llwyddiannus, ac mae'r grŵp wedi ennill sawl grant yn ddiweddar a fyddai'n help tuag at y costau adeiladu a thanwydd. Mae'r pwyllgor yn ymchwilio i brynu pentyrrau gwell y gellir eu symud yn haws er mwyn gwella'r man llogi. Rydym yn ymchwilio i wella'r cyfleusterau TG er defnydd y gymuned. Ymholiadau ynghylch y fflat sydd uwchben y Llyfrgell. Pryderon ynghylch y lleithder o'r fflat – bydd y pwyllgor yn ymchwilio i hyn. Mae mwy o sesiynau ac ystod fwy eang o wasanaethau'n defnyddio'r gofod yn raddol – mynd rhagddi i ddatblygu canolfan gymunedol. Mae grant wedi'i gyflwyno ar ran y pedair llyfrgell gymunedol a bydd Llanfairfechan yn cael ei amlygu fel enghraifft o arfer da yn sgil y llwyddiant diweddar.

Penderfynwyd derbyn a nodi

14. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

1. Grantiau ar gyfer y coroni – dydyn ni heb dderbyn unrhyw ymholiadau am hyn hyd yma ond fe wnaethon ni sôn yn flaenorol y byddem ni'n gofyn pe bai pobl yn hoff o gynnal digwyddiad. Gofynnwyd a fyddai'r Cyngor Tref yn cynnig grantiau o dan gyllid s137. Cyfeirio at y pwyllgor cyfryngau cymdeithasol ac ymchwilio i'r mater. Bu inni ganfod nad oedd y gymuned yn awyddus i ddathlu'r jiwibili ond gallai fod yn wahanol ar gyfer y coroni.
2. Bu canmoliaeth helaeth ynghylch y prosiect meinciau – mae'n ymddangos bod y preswylwyr yn falch iawn o'r meinciau newydd.
3. Mynegwyd pryder ynghylch perchnogaeth tir a dryswch posibl am ardaloedd a allai fod mewn perygl o lysiau'r dial.
4. Baw cŵn – mae cryn bryder o hyd ynghylch y lefel o faw cŵn ar Ffordd yr Orsaf. Bu i'r weithdrefn fu'n llwyddiannus mewn mannau eraill yn y dref yn aflwyddiannus yn Ffordd yr Orsaf. Yn gyffredinol, rydym wedi ychwanegu mwy o roliau o fagiau mewn argyfwng yn gyffredinol, ond, yn Ffordd yr Orsaf maen nhw'n cael eu cymryd ar unwaith yn ogystal â'r daliwr ac felly nid oes modd inni barhau i ddarparu rhai newydd o hyd. Gan fwrw golwg ar ystadegau Conwy, rydym yn dal mewn sefyllfa well na llawer o gymunedau eraill ond bu cynnydd yn y broblem hon ers cyfnod clo Covid. Gall hyn fod oherwydd bod gan bobl fwy nac un ci erbyn hyn neu efallai mai dim ond canran fechan o iawn o berchnogion sydd ddim yn cymryd gofal. Does dim warden cŵn yng Nghonwy ac roedd y system wardeiniaid cŵn blaenorol yn amhoblogaidd dros ben. Clerc i fynd i'r afael â'r syniad o osod arwyddion a chwrdd â'r grŵp cyfryngau cymdeithasol i drafod y camau nesaf.
5. Mynegwyd pryderon ynghylch cyflwyno cyfyngiad 20mya mewn ardaloedd adeiledig. Mae disgwyl y caiff hyn ei roi mewn grym ym mis Medi 2023. Codwyd cydymffurfiaeth a phlisma fel materion allweddol yn ystod y drafodaeth.
6. Gwybodaeth am y rhwydwaith rheilffyrdd – ymholiad ynghylch oes modd bwrw iddi i dacluso'r orsaf. Mae angen gwirfoddolwyr i ymgymryd â hyn. Dydy'r goleuadau ar y platfform ddim yn gweithio'n effeithiol felly fe adroddwyd eu bod yn ddiffygiol.
7. Mae gan Madryn ddiwrnod bioamrywiaeth ar y gweill – Clerc i rannu'r wybodaeth Penderfynwyd derbyn a nodi

Daeth y cyfarfod i ben am 9 yh. Bydd y cyfarfod nesaf am 7yh ar ddydd Mercher, Ebrill y 5ed 2023 yn Siambr y Cyngor ac ar-lein.